



Lleoliadau Ffilmio

Y lleoliad hanesyddol delfrydol ar gyfer eich prosiect ffilmio nesaf

Lleoliadau hanesyddol ar gyfer ffilmio

Yn Cadw rydym yn rheoli dros 130 o eiddo hanesyddol ar ran Llywodraeth Cymru, o siambrau claddu Oes y Cerrig a chestyll canoloesol mawreddog i fythynnod gweithwyr diwydiannol a phopeth rhyngddynt.

Rydym wedi bod yn croesawu criwiau ffilm o bob maint i'n safleoedd hanesyddol ers dros 100 mlynedd a gyda phortffolio eang o henebion yn rhychwantu miloedd o flynyddoedd o hanes, rydym yn hyderus bod gennym safle hanesyddol ar gyfer eich prosiect ffilmio nesaf.

Yn ogystal â lleoliadau anhygoel, mae gennym dîm o archeolegwyr a haneswyr sy'n gallu cynnig cyngor ac arweiniad arbenigol a gallant gyfrannu at unrhyw ddarnau camera ar gais.

Mae'r llyfryn hwn yn arddangos detholiad bach o'n heiddo hanesyddol yn unig, felly os nad ydych wedi dod o hyd i'r hyn rydych yn chwilio amdano yma, neu os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â ni a byddwn yn ymdrechu i helpu mewn unrhyw ffordd y gallwn.

I drafod ffilmio neu ffotograffiaeth fasnachol yn unrhyw un o'n henebion, anfonwch e-bost atom



Mae gan Cadw ystod wych o leoliadau ac maent yn mynd y ffiltr ychwanegol. Byddaf yn edrych i weld beth mae'r olygfa ei angen ac, yn amlach na pheidio, bydd gan Cadw leoliad.

Gareth Skelding: Cyfarwyddwr Cwmni a Rheolwr Lleoliad
— Location Solutions Wales.



Safle Cynhanesyddol



Safle Rhufeinig



Castell, Tŷ Hanesyddol, Palas



Safle Crefyddol





Safle Hanes Diwydiannol



Safle Hanesyddol Arall



- 1 Grŵp Cytiau Mynydd Twr
- 2 Bryngaer Caer y Tŵr
- 3 Caer Rufeinig Fach Caerbybi
- 4 Meini Hirion Penrhos Feilw
- 5 Maen Hir Tŷ Mawr
- 6 Siambr Gladdu Trefignath
- 7 Maen Hir Tregwehelydd
- 8 Siambr Gladdu Prysaeddfed
- 9 Siambr Gladdu Tŷ Newydd
- 10 Siambr Gladdu Barclodiad y Gawres
- 11 Siambr Gladdu Din Dryfol
- 12 Siambr Gladdu Bodowyr
- 13 Castell Bryn Gwyn
- 14 Caer Lëb
- 15 Siambr Gladdu Bryn Celli Ddu
- 16 Tŷ Canoloesol Hafoty



- 17 Tref Rufeinig Caer-went
- 18 Castell Runston
- 19 Gwersyll Bwlwarcrau Cas-gwent
- 20 Bryngaer Coed Llanmelm
- 21 Castell a Mur Porthledd Cas-gwent

BRŶ MORGANNWG

Gwaith Haearn Blaenafon

(sefydlwyd 1787)


Roedd Gwaith Haearn Blaenafon ar flaen y gad o ran datblygiadau technolegol yn y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a arweiniodd at dde Cymru yn dod yn gynhyrchydd haearn mwyaf y byd.

Yn swatio yng nghanol Safle Treftadaeth y Byd UNESCO, mae olion helaeth y gwaith haearn — ffwrneisi chwyth, ffowndri, tŷ bwrw, a thŵr cydbwysedd dŵr — ynghyd â bythynnod gweithwyr wedi'u hadnewyddu yn golygu bod Blaenafon yn cynnig cipolwg ar fywyd gwaith a domestig ym Mhrydain ddiwydiannol.

Mae bythynnod y gweithwyr wedi eu dodrefnu i gynrychioli sut yr oeddynt o 1790–1967. Mae'r tu mewn hanesyddol gywir, ynghyd â siop y cwmni (1800au), yn barod ar gyfer ffilm neu gellir eu haddasu i siwtio.

Cynyrchiadau nodedig y gorffennol:

— Coal House — Da Vinci's Demons — His Dark Materials



↻ NP4 9RN

Pellter oddi wrth:

Caerdydd 27 milltir
Bryste 43 milltir
Birmingham 102 milltir
Llundain 150 milltir
Lerpwl 152 milltir
Manceinion 173 milltir



Amffitheatr Rufeinig Caerllion, Baddonau Rhufeinig Caerllion, Barics Rhufeinig Caerllion

(tua 75 OC)

Roedd y gaer Rufeinig yng Nghaerllion yn un o dair canolfan filwrol barhaol a adeiladwyd yn ystod meddiannaeth Rufeinig Prydain.


Unwaith yn gartref i'r Ail Leng Awstaid, mae gweddillion y gaer hon sydd wedi goroesi yn ddiglyfelyb yn y DU ac yn cynnwys blociau barics, baddondy, amffitheatr a rhannau o wal y gaer.

Mae'r olion amrywiol yng Nghaerllion yn ddefnyddol ar gyfer cynrychiadau ffeithiol. Mae Amgueddfa Llang Rufeinig Cymru, sydd hefyd yng Nghaerllion, yn cadw llawer o arteffactau Rhufeinig a ddarganfuwyd yn yr ardal.

Dim ond deng milltir i'r dwyrain o Gaerllion, mae gan Dref Rufeinig Caer-went hefyd sylfeini lefel isel sy'n dyddio'n ôl i'w meddiannaeth Rufeinig, gan gynnwys marchnad, siopau a theml.

Cynrychiadau nodedig y gorffennol:

— Digging for Britain — Don't Tell the Bride — Time Team



CF83 1JD

Pellter oddi wrth:

Caerdydd 16 milltir
Bryste 28 milltir
Birmingham 102 milltir
Llundain 135 milltir
Lerpwl 163 milltir
Manceinion 173 milltir



Castell Caerffili

(sefydlwyd 1268)

Wedi'i leoli dim ond wyth milltir i'r gogledd o Gaerdydd, Castell Caerffili yw'r castell mwyaf yng Nghymru ac mae'n cael ei gydnabod yn eang fel un o gestyll mawr gorllewin Ewrop ganoloesol.

Wedi'u hadeiladu gan Gilbert de Clare, arglwydd Mers Morgannwg, mae waliau, tyrau a phorthdai enfawr Caerffili wedi'u hamgylchynu gan amddiffynfeydd dŵr, gan roi ôl troed o dros 30 erw i'r gaer aruthrol hon.


Mae natur helaeth Castell Caerffili yn golygu bod yna gyfoeth o opsiynau ar gyfer ffilmio mewnol ac allanol.

Mae'r Neuadd Fawr addurnedig gyfoethog*, 23m (75 troedfedd) o hyd, 11m (36 troedfedd) o led, yn darparu lleoliad delfrydol ar gyfer golygfeydd seremonïol a gwleddoedd yslennydd.

** Disgwylir i'r gwaith adnewyddu gael ei gwblhau yn 2025.

Cynyrchiadau nodedig y gorffennol:

— Wolf Hall — Discovery of Witches — The Spanish Princess



📍 CF83 1JD

Pellter oddi wrth:

Caerdydd 27 milltir

Bryste 44 milltir

Birmingham 117 milltir

Llundain 151 milltir

Lerpwl 168 milltir

Manceinion 193 milltir



Castell Caernarfon

(sefydlwyd 1283)

Am raddfa enfawr a drama bensaernïol, saif Castell Caernarfon ar ei ben ei hun. Cododd Edward I a'i bensaer milwrol Meistr James o San Siôr gastell, muriau'r dref a chei ar yr un pryd i atgyfnerthu concwest Lloegr yng ngogledd Cymru.

Wedi'i gydnabod ledled y byd fel un o adeiladau mwyaf yr Oesoedd Canol, mae'r gaer-palas hon yn cynnwys llenfuriau uchel, dau borthdy enfawr a naw tŵr. Tŵr yr Eryr, gyda'i dri thyred fawr wedi'u haddurno â ffigurau cerffedig canoloesol o bobl ac eryrod, yw gogoniant y castell.

O ran ffilmio, mae gwaith atgyweirio a wnaed yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn helpu i roi hwb gweledol i Gastell Caernarfon. Yn ogystal, mae buddsoddiad diweddar wedi gwella mynediad o fewn yr heneb.

Mae tyrau lluosog a llwybrau cerdded waliau yn cynnig digon o opsiynau i ffilmio o uchder, ac mae golygfeydd heb eu difetha ar draws môr yn cynnig dyfnder dramatig. Mae'r ddwy ward fewnol yn darparu digon o le awyr agored i griwiau.

Cynrychiadau nodedig y gorffennol:

— The Crown — Go Jetties — Great British Railway Journey's



↔ LL55 2AY

Pellter oddi wrth:

Lerpwl 85 milltir
Manceinion 104 milltir
Birmingham 143 milltir
Caerdydd 171 milltir
Bryste 217 milltir
Llundain 285 milltir



Castell Coch (ailadeiladwyd 1875)

Yn wreiddiol yn gastell canoloesol, ailadeiladwyd Castell Coch yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg gan y pensaer a'r dylunydd enwog William Burgess ar orchymyn trydydd marcwis cyfoethog Biwt. Y briff oedd ail-greu gweledigaeth wych o'r Oesoedd Canol a chodi caer newydd ar sylfeini adfeilliedig y castell a adeiladwyd gan deulu Clare yn y drydedd ganrif ar ddeg.


Gyda thu mewn wedi'i addurno'n gyfoethog a thyrau to conigol yn dod i'r amlwg o'r coetir trwchus sy'n ei amgylchynu, mae'n hawdd gweld pam y cyfeirir at Gastell Coch yn aml fel y castell tylwyth teg.

Oherwydd ei ailadeiladu, nid oes gan Castell Coch y dirywiad ffisegol y byddech chi'n ei ddisgwyl gan adeilad canoloesol, gan ei wneud yn ddefnyddol ar gyfer ystod eang o luniau allanol — naill ai o'r tu allan i waliau'r castell neu o fewn y cwrt mewnol.

Mae'r manau dan do disglair, sy'n cynnwys neuadd wledda, ystafell arlunio ac ystafelloedd gwely, yn cynnig amgylchedd delfryddol ar gyfer golygfeydd moethus.

Cynyrchiadau nodedig y gorfennol:

— Heston's Great British Food — Merlin, Sherlock — Torchwood



📍 CF15 7JS

Pellter oddi wrth:

Caerdydd 7 milltir


Bryste 45 milltir

Birmingham 125 milltir

Llundain 152 milltir

Lerpwl 174 milltir

Manceinion 187 milltir



Castell Oxwich (sefydlwyd 1520)

Yn edrych dros Fae Oxwich ym Mhenrhyn Gŵyr, mae Castell Oxwich mewn gwirionedd yn faenordy Tuduraidd a adeiladwyd yn yr unfed ganrif ar bymtheg.

Cafodd yr adeilad uchelgeisiol hwn ei ysbrydoli gan gestyll canoloesol cynharach ac mae'r nodweddion ffug filwrol i'w harddangos yn hytrach nag i amddiffyn.

Mae'r adain ddwyreiniol a oedd unwaith yn odidog ond sydd bellach yn adfail yn dal i gadw ei adain dde-ddwyreiniol syfrdanol, wedi'i chribo â ffenestri bach a lleoedd tân ar bob lefel, gan arddangos y raddfa a'r ysblander gwreiddiol. Mae'r adain gymharol gymedrol o'r de mewn cyflwr rhyfeddol ac mae'n cynnwys nifer o ystafelloedd wedi'u dodrefnu'n rhannol.

Mae cydbwysedd da rhwng manau awyr agored a dan do yn gwneud Oxwich yn opsiwn gwych ar gyfer ffilmio.



↔ SA31ND

Pellter oddi wrth:

Caerdydd 57 milltir

Bryste 92 milltir

Birmingham 144 milltir

Lerpwl 181 milltir

Manceinion 194 milltir

Llundain 199 milltir



Castell Rhaglan

(est. 1435)


Y castell carreg ieuengaf yng Nghymru, mae Rhaglan yn pontio diwedd y cyfnod adeiladu cestyll canoloesol ac yn trawsnewid i faenordy palasaidd.

Wedi'i leoli yng nghanol cefn gwlad Sir Fynwy, mae'r gaer-palas hon yn ymfalchïo mewn olion helaeth a phensaernïaeth drawiadol, gan gynnwys porthdy rhyngdylllog, tyrau polygonaidd a thŵr mawr trawiadol â ffos — uchafbwynt gwirioneddol Rhaglan a ffefryn pan ddaw i saethiadau allanol.

Gyda dau gwrth caeedig, ystafelloedd llety preswyl sydd wedi'u cadw'n dda a seleri tanddaearol niferus, mae gan Raglan ystod eang o leoliadau mewn ardal gryno sy'n ei gwneud yn un o'n lleoliadau mwyaf poblogaidd ar gyfer ffilmio.

Cynyrchiadau nodedig y gorffennol:

— Merlin — The Song Remains the Same — The Spanish Princess.



📍 **NP16 5EY**

Pellter oddi wrth:

Caerdydd 31 milltir


Bryste 33 milltir

Birmingham 80

milltir Llundain 138

milltir Lerpwl 171 milltir

Manceinion 159 milltir



Castell Cas-gwent

(sefydlwyd 1067)

Wedi'i sefydlu yn 1067 ar orchymyn Gwilym Goncwerwr, Castell Cas-gwent yw un o'r cestyll canoloesol hynaf ym Mhrydain.


Wedi'i leoli ar glogwyni yn edrych dros afon Afon Gwy, roedd ei leoliad yn darparu amddiffyniad naturiol ardderchog, ynghyd â golygfeydd godidog ar gyfer yr uchelwyr a arferai breswyllo yno.

Mae pensaernïaeth Gothig ynghyd â'i leoliad ar ochr y clogwyn yn gwneud Castell Cas-gwent yn gefndir gwych a dramatig i unrhyw olygfa. Mae'r gaer wedi'i dominyddu gan y tŵr mawr o'r unfed ganrif ar ddeg ond mae rhes ddomestig fawreddog o'r drydedd ganrif ar ddeg a thŵr preswyl trawiadol wedi'i goroni â ffigurau cerfiedig — Tŵr Marten — yn meddiannu'r beili isaf.

Mae Cas-gwent yn ymfalchïo mewn nifer o fannau dan do y gellir eu defnyddio, naill ai fel lleoliad penodol neu fel canolfan ar gyfer cast a chriw rhwng saethiadau.

Cynrychiadau nodedig y gorffennol:

— Dr Who — Merlin — Springwatch



📍 NP16 5EY

Pellter oddi wrth:

Bryste 18 milltir

Caerdydd 30 milltir

Birmingham 98 milltir

Llundain 125 milltir

Lerpwl 179 milltir

Manceinion: 214 milltir



Castell Talacharn

(sefydlwyd 1116)

Wedi'i sefydlu'n wreiddiol fel cadarnle Normanaidd, gadawodd canrifoedd o wrthdaro Gastell Talacharn mewn cyflwr adfeiliedig nes iddo gael ei achub a'i droi'n blasty Tuduraidd yn yr unfed ganrif ar bymtheg.

Mae dau dŵr carreg enfawr a phorthdy, pob un yn dyddio o'r drydedd ganrif ar ddeg, yn edrych dros y neuadd wedi'i hailadeiladu a'r bloc llety Tuduraidd yn y castell. Mae tŵr trawiadol y gogledd-orllewin, a wasanaethodd fel gorthwr, wedi cadw ei do cromennog canoloesol cain.

Yn edrych dros aber Afon Taf, ysbrydolodd y golygfeydd hyfryd y bardd Cymreig clodfawr Dylan Thomas a dreuliodd amser yn ysgrifennu yn gazebo'r castell.

Mae'r ward allanol eang, sy'n cynnwys gerddi addurnol hardd, yn cynnig digon o le ar gyfer ffilmio. Y tu allan i furiau'r castell, mae'r lleoliad prydferth yn cael ei gyfoethogi gan afon Coran sy'n ymdroelli heibio'r heneb drawiadol hon.



📍 SA33 4SA

Pellter oddi wrth:

Caerdydd 82 milltir

Bryste 117 milltir

Lerpwl 164 milltir

Birmingham 165 milltir

Manceinion 189 milltir

Llundain 224 milltir



Abaty Castell-nedd

(sefydlwyd 1130)

Ar un adeg yn un o abatai cyfoethocaf Cymru, mae'r olion yng Nghastell-nedd ymhlith y pwysicaf a'r mwyaf trawiadol yng Nghymru.


Yn dilyn ei diddymiad yn 1539, datblygwyd yr ystad helaeth yn Abaty Castell-nedd i ymgorffori plasty Tuduraidd ac yna, tua 250 mlynedd yn ddiweddarach, gwaith mwyndoddi copr ar gyfer gwaith haearn gerllaw — addasiadau a gyfrannodd at ei warchod.

Gellir archwilio cynllun cyfan yr abaty a'i adeiladau o hyd heddiw, gan gadarnhau maint yr anheddiad crefyddol llewyrchus hwn. Mae ei olion helaeth yn darparu lleoliadau aml-olygfa, gan gynnwys yr is-grofft cromennog atmosfferig ac eglwys yr abaty, gyda'i phensaernïaeth o ansawdd uchel.

Mae agosrwydd Castell-nedd at yr M4 yn ei gwneud yn lleoliad sy'n hawdd ei gyrraedd ar y ffordd

Cynrychiadau nodedig y gorffennol:

— Da Vinci's Demon — Dr Who — Willow



↻ SA10 7DW

Pellter oddi wrth:

Caerdydd 42 milltir

Bryste 77 milltir

Birmingham 142 milltir

Lerpwl 173 milltir

Llundain 184 milltir

Manceinion 186 milltir



Plas Mawr

(sefydlwyd 1576)

Wedi'i adeiladu rhwng 1576 a 1585 ac wedi'i leoli yng nghanol tref ganoloesol odidog Conwy, mae Plas Mawr wedi'i ddisgrifio fel y tŷ tref Elisabethaidd gorau ym Mhrydain.

Mae 17 o ystafelloedd trawiadol i'w harchwilio, y mwyafrif wedi eu dodrefnu fel y gallent fod wedi edrych yn 1665 — yn seiliedig ar restr fanwl o'r cynnwys ar yr adeg, yn ogystal â gwrthrychau ac adeiladau cyfoes.

Mae'r nifer enfawr o ystafelloedd ynghyd â dau gwrt mewnol a gardd Elisabethaidd wedi'i hail-greu yn golygu bod digon o opsiynau o ran ffilmio.

Mae'r safle hefyd yn elwa o sawl man dan do y gellir eu defnyddio gan gast a chriw rhwng saethiadau.

Cynyrchiadau nodedig y gorffennol:

— Guy Fawkes — Most Haunted



📍 LL32 8DE

Pellter oddi wrth:

Lerpwl 63 milltir

Manceinion 83 milltir

Birmingham 139 milltir

Caerdydd 192 milltir

Bryste 205 milltir

Llundain 252 milltir



Abaty Tyndyrn

(sefydlwyd 1131)

Abaty Tyndyrn yw un o adfeilion mynachaid mawr Cymru. Gan godi'n ddramatig o lawr dyffryn Gwy ac wedi'i amgylchynu gan dirwedd wyllt wedi'i gorchuddio â choed, mae teithwyr wedi heidio i'r abaty Sistersaidd ers canrifoedd i edmygu ei harddwch a'i ras.


Dechreuwyd adeiladu eglwys yr abaty, gogoniant mwyaf Tyndyrn, tua 1269 ac mae'n enghraifft ragorol o arddull addurnedig pensaernïaeth Gothig. Mae olion helaeth a thrawiadol o adeiladau mynachaid eraill ar y safle, gan gynnwys ystafell ddydd y mynachod a ffreutur.

Beth bynnag fo'ch cylch gwaith, mae yna fannau ac ardaloedd o amgylch yr abaty i wneud eich golygfeydd yn syfrdanol ac yn gofiadwy.

Noder: Mae'r gofeb ar hyn o bryd yn destun rhaglen gadwraeth fawr, felly mae'n bosibl na fydd yr eglwys ar gael i'w ffilmio hyd y gellir rhagweld

Cynyrchiadau nodedig y gorffennol:

— Digging for Britain — Escape to the Country — The One Show



📍 NP16 5EY

Pellter oddi wrth:

Bryste 22 milltir

Caerdydd 35 milltir

Birmingham 82 milltir

Llundain 129 milltir

Lerpwl 149 milltir

Manceinion 162 milltir

Llys a Chastell Tretwâr

(sefydlwyd 1100)

Wedi'i leoli ar weundir gwastad ac wedi'i amgylchynu gan dirwedd gwasgarog Bannau Brycheiniog, mae Llys a Chastell Tretwâr yn un o'n cyfrinachau gorau.


Mae'r eiddo trawiadol hwn yn cynnwys castell canoloesol gyda thŵr crwn gwyich, neu orthwr, a llys Tuduraidd mawr, ynghyd â chegin, ystafell fwyta fawreddog, gardd a cwrt mewnl.

Y tu mewn, mae paneli derw gwreiddiol ac ystafelloedd wedi'u dodrefnu yn gwneud Tretwâr yn lleoliad delfrydol ar gyfer golygfeydd mwy moethus.

Y tu allan, mae'r cwrt mewnl addasadwy wedi cael gweddnewidiad drammatig ar gyfer cynrychiadau blaenorol, o ardd lleiandy hardd yn Da Vinci's Demons, i dref ganoloesol orlawn yn The Hollow Crown.

Cynrychiadau nodedig y gorffennol:

— Cursed — Ironclad — The Libertine



📍 NP8 1RF

Pellter oddi wrth:

Caerdydd 39 milltir

Bryste 58 milltir

Birmingham 106 milltir

Lerpwl 139 milltir Llundain

165 milltir Manceinion 177

milltir



Abaty Glyn y Groes

(sefydlwyd 1201)

Mae'r abaty Sistersaidd hardd hwn wedi'i leoli ar afon Eglwyseg yn nyffryn prydferth Dyfrdwy. Mae'n un o'r abatai canoloesol sydd wedi'i gadw orau a'r mwyaf atmosfferig yng Nghymru.

Yn 1201, gwahoddodd tywysog gogledd Powys, Madog ap Gruffudd Maelor, gymuned o fynachod i ymgartrefu yma ac fe adeiladon nhw'r adeiladau a welwn heddiw.

O'r adfeilion helaeth, mae blaen gorllewinol mawreddog yr eglwys, cabidyldy, ystafell gyssu'r mynachod a phwll pysgod mynachaid yn uchafbwyntiau arbennig.

Mae'r abaty yn cynnig awyrgylch tawel, ysbrydol y gellir ei gyfeithu i'r sgrin ar gyfer unrhyw gyfrwng.

Cynyrchiadau nodedig y gorffennol:

— Painting Birds with Jim and Nancy



↔ LL20 8DD

Pellter oddi wrth:

Lerpwl 53 milltir

Manceinion 66 milltir

Birmingham 79 milltir

Caerdydd 138 milltir

Bryste 143 milltir

Llundain 204 milltir.




Cadw— er lles pawb.
For us all, to keep.


Edrychwn ymlaen at eich croesawu i'n safleoedd hanesyddol yng Nghymru


Ebost: cadwcommercial@llyw.cymru

Ffôn: 03000 257 182

cadw.llyw.cymru

 [@CadwCymru](https://www.facebook.com/CadwCymru)

 [@cadwcymru](https://twitter.com/cadwcymru)

 [@cadwcymruwales](https://www.instagram.com/cadwcymruwales)